Cenn@d

EBRILL 12 2023 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD A SEREN CYMRU* RHIF 111

# Eglwys Gymraeg Melbourne yn dathlu 170 mlynedd

‘Yr wyf yn rhoi i chwi orchymyn newydd: carwch eich gilydd. Fel y cerais i chwi, felly yr ydych chwithau i garu’ch gilydd’. (Ioan 13:34)

Dyma’r geiriau sy’n cael eu canu ar ddiwedd pob oedfa yn yr Eglwys Gymraeg ym Melbourne, ac maent yn mynegi i’r dim ysbryd yr eglwys.

Roedd cael mynd i Melbourne ar gyfer pen-blwydd yr Eglwys Gymraeg yno yn 170 oed eleni yn brofiad anhygoel. Rwy’n ddiolchgar iawn i’r Parchedig Siôn Gough Hughes, Christine a Fred Boomsma a’r cyfeillion oll yn Awstralia am eu croeso cynnes ac am drefnu ar fy nghyfer raglen mor ddiddorol o wasanaethau, digwyddiadau arbennig ac ymweliadau. Christine yw Ysgrifennyddd yr Eglwys ac y mae’n hanu o Benmachno yn wreiddiol.

Yn ystod fy ymweliad clywais Gerddorfa Symffoni Melbourne mewn cyngerdd yn yr Hamer Hall ac ymwelais â Sanctuary Healsville, lle y gwelais gangarŵs, coalas ac anifeiliaid eraill nad ydynt i’w cael ond yn Awstralia. Wrth ymweld â’r Yarra Valley Chocolaterie, cefais yr ‘hot cross bun’ fwyaf yr wyf wedi ei gweld erioed, a honno’n cynnwys siocled gwyn a mafon. Roedd cegin yn y gwesty ar bwys yr eglwys lle’r oeddwn yn aros ond prin y bûm yno oherwydd yr holl wahoddiadau caredig a gefais i fwyta gydag aelodau a ffrindiau’r eglwys.

Yn fwy na dim, mwynheais gwrdd â’r bobl hyfryd ym Melbourne, Ballarat a Geelong, gan glywed hanesion am eu cysylltiadau â Chymru. Yn achos rhai, daethai eu cyndeidiau o Gymru i Awstralia yn ystod y ‘Gold Rush’ yng nghanol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd hynafiaid eraill ymhlith y ‘Ten Pound Poms’ oedd wedi dod i chwilio am gyfleoedd newydd yn Awstralia. Ac roedd yna hefyd bobl ifanc oedd wedi dod i Melbourne yn ddiweddar i weithio a theithio, a hynny o ardaloedd fel Machynlleth ac Ynys Môn. Cyfarfûm hefyd â chymydog i’r Parchg Ddr John Tudno Williams yng Nghapel Seion – mae’r byd yn fach yn wir!



Y Parch. Siôn Gough Hughes a’r Parch. Richard Brunt yn torri cacen y dathlu

Braint oedd cael arwain y defosiwn yn y Gymanfa Ganu, gyda dros 400 yn y gynulleidfa a chwe chôr. Cefais gyfarfod â Faleiry Koczkar OAM (arweinydd Cantorion Cymreig Victoria ym Melbourne) unwaith eto hefyd; mae’n aelod ffyddlon o Eglwys Gymraeg Jewin yn Llundain ac roedd yn un o arweinyddion y Gymanfa.

Braint hefyd oedd cael siarad yn yr oedfa Dydd Gŵyl Dewi a phregethu yn oedfa’r bore (yn Saesneg) ac oedfa’r prynhawn (yn y Gymraeg) ar y Sul i ddathlu 170 o flynyddoedd ers sefydlu’r eglwys. Yr unawdydd soprano ardderchog yn y Gymanfa ac yn y gwasanaethau ar ben-blwydd yr eglwys oedd Carly Owen, yn wreiddiol o Fangor.

Mae Melbourne yn ddinas hardd gyda’i strydoedd eang, ei thramiau a’i phensaernïaeth ddeniadol, ac fe gyfrannodd tywydd braf yr haf yno hefyd at ymweliad cofiadwy a phrofiad bendigedig.

*Richard Brunt*
*Llundain*

O’r byd a’r betws
Hapus dyrfa
**Tudalen 2**

Lansio dwy gyfrol newydd
**Tudalen 3**

Stori i’w lliwio
Me iesu’n fyw!
**Tudalen 6**

# O'r byd a'r betws

## Hapus dyrfa

Bydd y sawl sy'n aelod o'r Wal Goch adeg gêm bêl-droed Cymru yn teimlo'n hyderus ynghanol y dyrfa, ac felly pob tîm, beth bynnag y gamp.

Profiad brawychus, mae'n siŵr, ddaeth i ran y sawl oedd yng nghyffiniau Paris pan oedd y protestio'n digwydd yno, ac ni fyddai'r person 'canol y ffordd' yn dewis bod yn agos at rali wleidyddol, beth bynnag oedd safbwynt y rali honno.

Yn yr un modd, mae cefnogwyr Donald Trump yn codi stêm wrth weld eu harwr yn herio'i dynged. Ar y naill law, bydd cemeg tyrfa yn rhannu hyder a llawenydd, ac ar y llaw arall gall rannu dicter a chasineb.

Yn ystod wythnos y Pasg, cyfeirir at ddwy dyrfa: y naill yn croesawu Iesu i Jerwsalem ac yntau'n marchogaeth ebol asyn, a'r llall yn hawlio croeshoelio Iesu ar ddydd Gwener y Groglith. Tyrfa lawen yn canu mawl a meithrin gobaith a welwyd yn cyrraedd Jerwsalem yn dilyn y brenin ar ebol asyn. Ond crochlefain am groeshoelio 'tywysog tangnefedd' ar ddydd y croeshoelio wnaeth y dyrfa a welai berygl mewn daioni chwyldroadol ac mai haws oedd byw gyda throsedd a thrais.

Mwy na thebyg, nid yr un bobl oedd yn y ddwy dyrfa, ac roeddent yn dibynnu ar y sawl a weithredai fel y 'codwr canu' yn eu plith. Bydd bod yng nghanol y sŵn a phresenoldeb tyrfa yn medru bod yn ddylanwadol ar bwy bynnag sydd gerllaw, ac mae'n rhyfedd pa mor naïf y gall pobl fod. Er bod llai yn prynu papur dyddiol bellach, gall grym y wasg fod yn sylweddol. Mae'r un dylanwad ar y cyfryngau digidol, gyda'r sawl sy'n codi'r canu'n dylanwadu ar filoedd. Pa ryfedd bod yr hysbysebwyr nwyddau'n manteisio ar bob cyfle i ddangos eu neges i'r miliynau sy'n bodio'n ddiniwed ar Facebook, Twitter, TikTok neu ar lwyfannau cyffelyb?

Yn ddiddorol, siarad ag unigolion wnaeth Iesu yn y diwrnodau cynnar ar ôl yr atgyfodiad. Roedd Mair ar ei phen ei hun yn yr ardd, a dim ond dau brofodd wefr y datguddiad yn Emaus. Er bod deg arall yn bresennol, siarad â Thomas wnaeth Iesu, er ei bod yn anodd meddwl iddo ddiflannu'n sydyn heb gael sgwrs gyda'r deg arall.



Llun: Y Wal Goch gan Lowri Fron

Mater personol yw ffydd a datgan cred. Mae'n rhyfedd sut mae'r ystafell ddirgel yn medru bod mewn tŷ llawn. Gall llawer fod yn rhan o'r dyrfa, a phob un yn cael profiad sy'n argyhoeddi. Ond daw'r 'sicrwydd bendigaid' y cyfeirir ato yn un o'n hemynau, 'daeth Iesu i'm rhan – Jesus is mine', yn brofiad personol yng nghanol y gynulleidfa. Deuthum i'n ymwybodol o'm galwad i'r weinidogaeth mewn oedfa gymun drwy gyfrwng y Saesneg ynghanol criw o bobl ifanc yng Ngogledd Iwerddon. Roedd pob profiad cynt wedi bod yn gamau ar y daith, a phob cam wedi hynny yn rhoi gwybod mai cael fy arwain y byddwn ac nid mynd drwy broses o ymresymu, fel dewis dilledyn neu gar.

Pan fyddwn yn dymuno 'Pasg dedwydd' i eraill, onid dymuno y bydd y Pasg yn dwyn cyffro a llawenydd iddynt a wnawn, ac nid gorboeni am wyliau neu wyau siocled?

Eto, mae'r dyrfa yn medru bod yn 'critical mass' o bwys. Bydd cynnal oedfaon ar y cyd yn rhannu gwefr ac yn meithrin hyder a phrofiad llawn gorfoledd. Gall y weddi dawel, bersonol fod yn hynod felys, a bydd rhannu defosiwn mewn cynulliad bychan yn fraint. Eto, bydd canu mewn cymanfa niferus a moli Duw gyda'r lliaws yn drydanol. Yng ngeiriau Peter Thomas: 'Cerddwn ymlaen i'r yfory' i gael blasu'r '[g]obaith gwiw'. (*Caneuon Ffydd*, 154)

*Denzil John*

# Lansio dwy gyfrol newydd

Ddechrau Ebrill daeth dwy gyfrol newydd o'r wasg gan Gyhoeddiadau'r Gair. Y gyntaf oedd *Dehongli Bywyd Moses* gan Gareth Lloyd Jones. Bu'r gyfres hon, a gychwynnwyd gan Elfed ap Nefydd Roberts dros ddegawd yn ôl, yn hynod boblogaidd, a braf oedd gweld y drydedd gan Gareth yn dod o'r wasg. Yn dilyn cyfrolau'r Hen Destament ar Abraham, Esther a Jona, dyma'r ddiweddaraf ganddo mewn cyfres o astudiaethau Beiblaidd. Aeth Aled Davies draw i Landegfan i gyflwyno'r gyfrol ddiweddaraf iddo, a thra oedd yno fe dderbyniodd lawysgrif arall ganddo, sef y gyfrol nesaf yn y gyfres, a fydd yn dehongli bywyd Ruth ac yn bwrw trem hefyd ar Lyfr y Pregethwr. Diolch i Gareth am ei lafur diflino. Mae'r gyfrol bellach ar gael yn y siopau am £8.99.

Yr ail gyfrol oedd casgliad o 366 myfyrdod a gweddi, yn bigion o'r gyfres *O Ddydd i Ddydd*, sef y llyfrynnau defosiynol chwarterol a gyhoeddwyd dros gyfnod o ddeugain mlynedd. Aeth y golygydd, Iwan Llewelyn Jones, ati i ddethol a dewis, er mwyn crynhoi 365 o fyfyrdodau tymhorol ac amserol. Ac nid gwaith hawdd oedd penderfynu pa rai i'w cynnwys a pha rai i'w gollwng. Roedd Desmond Davies, Caerfyrddin, wedi cyflwyno bocs mawr i'r wasg yn cynnwys gwerth 40 mlynedd o gopïau o'r llyfrynnau bach, gan awgrymu bod potensial am gyfrol yma.

Nid hwn oedd y tro cyntaf i'r syniad gael ei drafod, gan i'r diweddar Gwilym H Jones ddechrau ar orchwyl tebyg dros ddegawd yn ôl, ond yn anffodus fe gollodd ei iechyd cyn cwblhau'r dasg. Mae yma berlau o fewn cloriau'r llyfr, ac mae wedi bod yn gymwynas diogelu rhai o'r cyfresi a ymddangosodd yn y gorffennol. Wedi i Iwan ddewis 365 o fyfyrdodau, dyma olygydd iaith y gwaith, Mair Jones Parry, yn tynnu sylw Iwan at y ffaith fod y flwyddyn nesaf yn flwyddyn naid. Felly, ychwanegwyd un myfyrdod ychwanegol er mwyn gofalu bod darlleniad ar gyfer blwyddyn naid.

Cafwyd cyfarfod lansio hyfryd yng Nghapel y Traeth, Cricieth. Cafwyd eitem gan griw'r Clwb Sul a Gwyneth Glyn, a ganodd 'Arglwydd, mae yn nosi' yn hudolus, cyn cloi gydag 'Adref'. Cyflwynwyd copi o'r gyfrol i Iwan gan gyfarwyddwr y wasg, Aled Davies, a chafwyd gair gan Iwan yn rhannu ei brofiad o hel y deunydd ynghyd.


Rhannwyd tri myfyrdod, gydag Elen Jones, gwraig Iwan, yn darllen myfyrdod o waith ei thad, George Rees; Geraint Tudur yn darllen myfyrdod o waith ei dad yntau, R. Tudur Jones; a Pryderi Llwyd Jones yn darllen gwaith ei gyn-gymydog yn Aberystwyth, Enid Morgan.

Wedi'r cyfarfod, cafwyd cyfle i brynu copïau wedi eu llofnodi gan y golygydd, a hynny dros luniaeth rhagorol gan chwiorydd y capel. Mae *O Ddydd i Ddydd* ar gael yn eich siop Gymraeg leol, pris £11.99.


Cafwyd cyfle hefyd i lansio'r gyfrol yn niwrnod gweinidogion y gogledd yn Llanuwchllyn, ac yno cyflwynwyd copi iddo gan Mererid Mair, Is-gadeirydd Cyngor yr Ysgolion Sul. Cafodd Aled hefyd gyfle tra oedd ar ymweliad â chapel y Tabernacl, Caerfyrddin, i gyflwyno copi i Desmond Davies a fu'n ysgogydd i baratoi'r gyfrol hon.



Mererid Mair yn cyflwyno copi o'i gyfrol i Iwan Llewelyn yn niwrnod gweinidogion y gogledd, gydag Aled Davies a Dyfrig Rees



Cyfarfod Gareth Lloyd Jones yn ei gartref yn Llandegfan er mwyn cyflwyno copi o'i gyfrol ddiweddaraf iddo




Cyflwyno copi o *O Ddydd i Ddydd* i Desmond Davies yn y Tabernacl, Caerfyrddin



Cyfarfod lansio yng Nghapel y Traeth, Cricieth, yng nghwmni plant y Clwb Sul, a gyflwynodd eitem, a'r rhai a gymerodd ran yn y cyfarfod: cefn, o'r chwith i'r dde: Pryderi Llwyd Jones, Geraint Tudur, Gwyneth Glyn, Iwan Llewelyn Jones, Elen Jones ac Aled Davies

# Cemegydd Geiriau

## John Gruffydd Jones
## 25 Tachwedd 1932–11 Mawrth 2023



Gŵr mwyn cemegau'r geiriau,
Gŵr crwn y cyflawniadau,
Gŵr seiat a phêl, cefn i'r iaith
Ar daith rhwng Llŷn a'r Glannau.

Yn sgil triawd trawiadol o lwyddiannau yn yr Eisteddfod Genedlaethol rhwng 1981 a 1987 – y Fedal Ryddiaith, y Fedal Ddrama a'r Goron – roeddwn i'n gwybod yn iawn am y Prif Lenor, y Prif Ddramodydd a'r Prifardd John Gruffydd Jones. Yn ystod yr un cyfnod ffrwythlon y cyhoeddodd *Straeon Canol Oed* a'r nofel fer *Perthyn i'r Teulu*. Dois hefyd i wybod mwy o'i hanes pan ofynnwyd imi lunio cofnod amdano ar gyfer argraffiad newydd o *Cydymaith i Lenyddiaeth Cymru*. Ond o ddiwedd y 1980au y cefais i'r fraint o'i adnabod ac yna'i gyfri'n dad-yng-nghyfraith ffeind, cefnogol a gofalgar, gŵr y deuthum i'w edmygu'n fawr ac un y bu gen i feddwl mawr ohono.

Croniclwyd rhai o'r ffeithiau moel yn y *Cydymaith*: ei eni yn 1932 a'i fagu yn Nanhoron a'i gartref, Trigfa – sy'n egluro'r ffaith mai at John Trigfa y cyfeiriai pobl Llŷn ato hyd ddiwedd ei oes, ei gyfaill bore oes Harri Parri yn eu plith – led cae oddi wrth Gapel Newydd, sef y capel Anghydffurfiol y tybir ei fod wedi goroesi hwyaf yng ngogledd Cymru. Mudo wedyn yn 1951 i Fanceinion lle bu'n gweithio fel cemegydd diwydiannol i gwmni ICI a phrofi cryn gyferbyniad diwylliannol, mater yr âi ati i'w archwilio'n greadigol yn y man. Dychwelyd i Gymru yn 1967 gyda'i briod, Eirlys, un a gollodd bedair blynedd ar ddeg yn ôl, a hynny i Abergele lle bwriodd i ganol bywyd cymunedol yr ardal. Bu'n aelod selog yng nghapel Mynydd Seion ac yn gyfaill agos i'r diweddar Barch. Isaac Jones a'i deulu. Bu hefyd am flynyddoedd yn aelod ffyddlon o Gymdeithas y Faenol Fawr a'r anrhydedd olaf a ddaeth i'w ran – ddyddiau'n unig cyn ei farwolaeth – oedd Tlws y Prif Of am gyfraniad oes i Glwb yr Efail, cymdeithas ddiwylliadol ym Mro Colwyn. Bu hefyd hyd ddiwedd ei oes yn golofnydd misol i bapur bro *Y Glannau*.

Mae sawl teyrnged iddo wedi ei ddisgrifio fel gŵr cyflawn, un crwn ei ddiwylliant, ac yn sicr roedd ei ddiddordebau'n eang. Bu am flynyddoedd yn mwynhau golffio a bowlio, a châi ddifyrrwch mawr ar Sadyrnau'n gwylio gemau pêl-droed ar y teledu – tîm yr Elyrch a gefnogai ef. Ond ers ei ddyddiau yn Ysgol Botwnnog – lle roedd ei hen athro Saesneg, Gruffudd Parry, yn ddylanwad mawr ac yn eilun iddo – bu yntau'n chwaraewr pêl-droed medrus ac yn ddiweddarach yn ddyfarnwr. Eto i gyd, fel llenor a ddaeth i'r amlwg drwy eisteddfodau o ganol y 1970au ymlaen y denodd y sylw pennaf. Yn wir, mor ddiweddar ag Eisteddfod Genedlaethol 2018, enillodd ddwy wobr lenyddol a'i wobrwyo sawl gwaith cyn hynny yng nghystadlaethau'r stori fer a'r delyneg yn neilltuol yn ogystal ag am ysgrif, portread, dychangerdd, soned, penillion telyn a drama fer ar hyd y blynyddoedd. Roedd felly'n *all-rounder* llenyddol a gâi fodd i fyw yn cyfansoddi ac yn cystadlu, rhywbeth a gadwai ei feddwl yn effro ac a rôi her greadigol iddo.

Ar ôl ymddeol o'i waith gyda chwmni Robertson yn Llandudno, cwmni a baratôi wasanaethau ymchwil ac ymgynghorol ym maes gwyddorau daear, cafodd gyfle i ymroi i rai o'i ddiddordebau eraill. Bu am flynyddoedd yn golofnydd wythnosol yn *Y Faner*, ond yna, rhwng 2000 a 2010, ymgymerodd â'r dasg nid ansylweddol o olygu'r *Goleuad* bob wythnos. Gwnaeth hynny gyda'i frwdfrydedd a'i ddygnwch nodweddiadol a sicrhaodd bapur bywiog, amserol a darllenadwy a apeliai y tu hwnt i'w enwad. Yna yn 2010 ymunodd, yn fyfyriwr hŷn, ag Adran Gymraeg Prifysgol Bangor lle bu'n dilyn MA Ysgrifennu Creadigol dan gyfarwyddyd yr Athro Angharad Price. Y profiad hwnnw a roddodd yr hyder iddo gyhoeddi'r nofel *Dawns Ganol Dydd* yn 2012 ac *Ai Breuddwydion Bardd Ydynt?*, casgliad o'i gerddi, flwyddyn yn ddiweddarach.

Ni fu'r blynyddoedd diwethaf bob tro'n hawdd ac yntau'n cael anawsterau symud, ac fel yn achos cynifer, fe'i caethiwyd i'r tŷ yn ystod y Cyfnod Clo, profiad anodd i un mor gymdeithasgar ei natur. Ond roedd yn ddiolchgar i'r ffrindiau a'i galwai dros y ffôn ac yn ystod y cyfnod hwn y daeth yn aelod drwy Zoom o oedfaon a seiadau Capel Seilo, Caernarfon, cyfarfodydd rheolaidd a hawliodd le pwysig yn ei amserlen wythnosol. At hynny roedd yn ddarllenydd brwd ac eclectig a lowciai lyfrau a chylchgronau mor amrywiol â *Barn* a *Which?*, *Y Faner Newydd* a chatalogau garddio tymhorol.

Ac yntau'n dathlu ei ben blwydd yn 90 fis Tachwedd diwethaf, cafodd ddychwelyd i Lŷn ei fagwraeth lle y treuliodd wyliau'n dathlu'r achlysur gyda'i deulu agosaf – ei ferch a'i fab, Delyth Marian a Dafydd Llewelyn, y tair wyres yr oedd ganddo feddwl y byd ohonynt, a'i chwaer a'i frawd-yng-nghyfraith, Catherine a Dafydd – a hynny yn Aberdaron ger tonnau gwyllt y môr.

Coffa da a diolch am un dwys ac addfwyn, gŵr bonheddig creadigol ond gwylaidd a gyflawnodd lawer iawn ac a gyfoethogodd fywyd cynifer ohonom. Bydd y golled ar ei ôl yn fawr.

*Gerwyn Wiliams*


# Y Silff Lyfrau

Cyn-Athro Athroniaeth ym Mhrifysgol Toronto yw Paul W. Gooch, ac mae eisoes wedi dangos ei fod yn hyddysg ym maes astudiaethau o'r Testament Newydd ac wedi cyhoeddi llyfrau ac erthyglau yn trafod syniadaeth Iesu a Paul o safbwynt athronyddol. Mae'r gyfrol dan sylw y tro hwn: *Paul and Religion: Unfinished Conversations*, yn ymddangos mewn cyfres o Gaergrawnt o dan y pennawd 'Cambridge Studies in Religion, Philosophy, and Society'. Amcan y gyfres hon o gyfrolau yw ceisio mynd i'r afael â chwestiynau oesol a godir gan grefydd a'r rheiny'n aml iawn yn rhai cymhleth. Ceir ffocws arbennig yn y gyfrol hon ar broblemau cyfoes a gyfyd ac sy'n effeithio ar grefyddau'n gyffredinol. Rhoddir sylw'n arbennig i faterion yn ymwneud â chenedl a rhywogaeth ynghyd â rhai sy'n effeithio ar amrywiaeth a phlwraliaeth grefyddol.

Yr hyn a wna'r awdur hwn yn benodol yw ennyn trafodaeth ar gynnwys y saith o lythyrau'r Apostol Paul a ystyrir yn gyffredinol fel y rhai a gyfansoddodd i sicrwydd. Neilltuir pennod yr un i drafod wyth cwestiwn y mae'r awdur yn eu holi ynglŷn â dealltwriaeth yr apostol o'r hyn a olygir wrth 'y ffurf grefyddol ar fywyd' a sut y mae'n berthnasol i'n sefyllfa gyfoes ni. Mae'r awdur yn gofyn pa mor hawdd yw hi i drafod cwestiynau crefyddol ag ef, o ystyried y rhwystrau a'r camsyniadau a wyneba'r holwr wrth geisio gwneud hynny. Daw i'r casgliad y dylid canolbwyntio, fel y nodwyd, ar natur bywyd crefyddol, gan ddarganfod pwyslais yr apostol ar y ffaith ein bod oll 'yn Adda', ac felly'n feidrol ac yn anufudd, yn analluog i'n helpu ein hunain ac mewn angen i gael ein hail-greu 'yng Nghrist'. Darganfyddir mai sylfaen y bywyd crefyddol yw gras Duw a'r cariad agapetig a ddaw yn ei sgil. Y cariad arbennig hwn sy'n allweddol o ran creu cymdeithas yr eglwys, sef corff a theulu Crist. Hwn hefyd a ddylai lywio ymarweddiad ei haelodau. Adlewyrchiad ydyw o feddwl Crist ei hun.

Tystia Paul i'w darddiad a'r modd y mae'n gweithredu yn y credadun: 'Oherwydd y mae cariad Duw wedi ei dywallt yn ein calonnau trwy'r Ysbryd y mae wedi ei roi i ni' (Rhufeiniaid 5.5). Ychwanega'r awdur mai gwraidd cariad yw'r profiad o gael ein caru.

Pan ddaw ar ddiwedd y gyfrol i ystyried yr hyn a ddywedir am y problemau cyfoes neilltuol a nodwyd uchod, nid yw'r awdur hwn mor fodlon ar yr hyn yw cyfraniad Paul at eu datrys. Yn wir, yn y bennod olaf dengys yr awdur fod yn rhaid i'r drafodaeth ag ef barhau gan nad yw'r ffurf ar y bywyd crefyddol a amlinella Paul yn cydweddu'n llwyr â'r hyn a ystyria ef yw'r ffurf Gristnogol arno. Yn y cyswllt hwn, cyfeiria'n arbennig at ymdriniaethau'r apostol â materion yn ymwneud â gwragedd a rhywioldeb, a hefyd berthnasedd yr hyn a ddywed gyda golwg ar ein hagwedd at grefyddau eraill a phobl ddi-gred yr oes hon.




Yn fy marn i, cyflwyna Gooch drafodaeth ffres o ddeunydd cyfarwydd gan ddefnyddio'i sgiliau athronyddol wrth ddadansoddi cysyniadau allweddol megis gras a chariad yn llythyrau Paul. Ceir tryloywder drwy gydol yr ymdriniaeth ac yn aml mae'n herio'r cysylltiadau a wneir rhwng safbwyntiau Paul ac amgylchiadau heddiw, a'r rheiny'n aml braidd yn arwynebol. Fe'n hatgoffir felly nad proses hawdd yw ceisio cysylltu'r hen a'r newydd. Ac eto, mae'n dasg y mae'n rhaid ei chyflawni ym mhob cyfnod. Dyna felly pam bod rheidrwydd arnom i barhau'r drafodaeth oesol â'r apostol a'i bod yn un anorffenedig.

(*Paul and Religion: Unfinished Conversations,* Paul Gooch; Cambridge University Press, 2022, 978-1-108-70192-1, £19.99, tt. xiii + 201)

*John Tudno Williams*

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 16 Ebrill, am 7.30yh**

Gŵyl fawr y calendr Islamaidd, Ramadan, sydd dan sylw'r wythnos hon. Yng Ngholeg Iwerydd bydd Ryland Teifi yn cwrdd â'r Mwslim ifanc Mahum Umer, a bydd yr academydd Laura Jones yn egluro arwyddocâd y cyfnod yma yn ei mosg yng Nghaerdydd. Hefyd, cawn berfformiad gan Ynyr Roberts.

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 16 Ebrill, am 7:30yb a 4:30yp**

Rhaglen o emynau wedi'u perfformio gan Gantorion Rhydbach, Botwnnog


**Sul, 16 Ebrill, am 12:00yp**

Oedfa dan arweiniad myfyrwyr o Brifysgol Bangor, dan arweiniad Beca Evans

# Stori i'w lliwio

## Mae Iesu'n fyw!


www.lambsongs.co.nz Gan Jill Kemp (Cyf. Susan Williams) Lluniau: Richard Gunther




Roedd Iesu wedi dod yn ôl o farw'n fyw, yn union fel yr oedd wedi dweud wrth ei ffrindiau y byddai'n gwneud, ond doedden nhw ddim wedi deall hyn. Yn Efengyl Ioan yn y Beibl cawn wybod beth ddigwyddodd.




Pan aeth Mair at fedd Iesu, tridiau wedi iddo farw, gwelodd ei fod yn wag. Aeth ar ei hunion i ddweud wrth Pedr ac Ioan.



Roedd yn rhaid i Pedr ac Ioan gael gweld drostyn nhw eu hunain. Rhedodd y ddau i mewn i'r bedd. Gwelsant fod y dillad ar gyfer claddu'n wag. Roedd yn wir. Doedd Iesu ddim yno!




Eisteddodd Mair y tu allan i'r bedd yn crio. "Pam wyt ti'n crio?" gofynnodd dau angel iddi. "Maen nhw wedi cymryd Iesu ymaith," wylodd, "a dydw i ddim yn gwybodi i ble maen nhw wedi mynd â fo."



Meddai rhywun, "Mair, pam wyt ti'n crio?" Roedd Mair yn meddwl mai'r garddwr oedd yno. "I ble'r wyt ti wedi mynd â Iesu?" gofynnodd. Galwodd y dyn ei henw, "Mair."



Roedd yn swnio fel llais Iesu'n ei galw. Sychodd ei llygaid ac edrychodd i fyny. Yn wir, Iesu oedd yn siarad â hi. Roedd Iesu'n fyw!



Roedd Mair wrth ei bodd! Roedd Iesu wedi marw ond nawr roedd yn fyw! Dywedodd Iesu wrthi am fynd i chwilio am ei ffrindiau a dweud y newyddion da wrthyn nhw!



Rhedodd Mair â'i gwynt yn ei dwrn, i chwilio am ffrindiau Iesu! "Mae'n fyw!" gwaeddodd. Ar adeg y Pasg rydyn ni'n cofio fod Iesu'n fyw!

# Mawl ac anogaeth yn y Gogledd-ddwyrain

Er mwyn cefnogi ein gilydd fel eglwysi yn yr ardal ac yn Henaduriaeth y Gogledd-ddwyrain, fe roddwyd cyfle inni ddod at ein gilydd ar gyfer prynhawn o fawl ac anogaeth yn Soar, Nercwys, bnawn Sul, 26 Mawrth. Thema'r pnawn oedd 'Disgwyliad', a hynny gan ein bod yn cyfarfod yng nghyfnod y Grawys mewn disgwyliad a pharatoad ar gyfer y Pasg. Roedd y pnawn yng ngofal Gweithwyr Ieuenctid a Theuluoedd ac Arloesi yr henaduriaeth, sef Siwan Jones a Catrin a Corey Hampton.

Cafwyd cwmni rhai o'r Cymry ifanc sy'n gweinidogaethu yn eglwys newydd Stryd Gobaith yn Wrecsam, sef Sara Edwards a Rhys Parry, gan glywed am eu gwaith a'u tystiolaeth a'r ffordd y bu i'r Arglwydd eu harwain i'r ardal. Daw Sara yn wreiddiol o'r Bala, ond mae ei gwreiddiau yn y Gogledd-ddwyrain, ac mae hi'n gweithio fel gweithiwr plant yn yr eglwys newydd yn Wrecsam. Daw Rhys yn wreiddiol o Drury, ger Bwcle, ac er i'w fagwraeth fod yn un ddi-Gymraeg, fe deimlodd alwad i ddysgu'r iaith ac i addoli ynddi. Treuliodd gyfnod helaeth yn Awstralia cyn symud yn ôl i Gymru ac i ardal Uwchaled. Cawsom ein cyflwyno i ganeuon mawl hen a newydd yn y Gymraeg, i glywed neges o anogaeth ac i fod yn ddisgwylgar mewn gweddi wrth ymwneud â gweithgareddau gweddi arbennig.

Diolch i bawb a ddaeth i'r digwyddiad. Diolch i aelodau Soar am y te a'r lluniaeth a'r gwmnïaeth. Diolch i'n gweithwyr am eu gwaith tîm ardderchog yn yr Henaduriaeth ac am eu paratoad ar ein cyfer. A diolch i'r Arglwydd am ei gwneud yn bosibl inni gael ein hannog yn ein ffydd a derbyn ei lawenydd yng nghwmni ein gilydd. Edrychwn ymlaen at gyfarfodydd tebyg eto yn y dyfodol.

*(Gol. HP-D)*



Siwan Jones yn holi Rhys Parry




Catrin yn cyflwyno ac yn cyf-weld Sara

## YSGOL HAF Y WEINIDOGAETH IACHÁU 1953–2023

Cynhelir yr Ysgol Haf yn Cefnlea, Dolfor, ger y Drenewydd

**22–5 Mehefin 2023**

Am fwy o fanylion cysylltwch â:
nerysrowlands@hotmail.co.uk;
0775944682

Croeso cynnes i bawb
Dowch i gael bendith, ac i wneud ffrindiau newydd



## Eglwys Bresbyteraidd Cymru

### Galluogwr Cenhadol (Rhan Amser) wedi'i leoli yn Rhosllannerchrugog a'r cyffiniau

Mae Henaduriaeth y Gogledd-ddwyrain, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, yn dymuno penodi Galluogwr Cenhadol, gan alluogi cenhadaeth a hyrwyddo'r dystiolaeth Gristnogol yn yr iaith Gymraeg yn bennaf yn Rhosllannerchrugog a'r cyffiniau.

Rydym yn chwilio am unigolyn brwdfrydig a gweithgar i ymuno â gwaith yr Henaduriaeth fel Galluogwr Cenhadol.

**Oriau:** 21 awr yr wythnos.
**Cytundeb:** 3 blynedd yn y lle cyntaf gyda'r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf.
**Cyflog:** Band 22–26 ar raddfa cyflog EBC. Gall y band gynyddu hyd at 27–31 yn dibynnu ar lefel y cymwysterau a'r profiad, a bydd cyfle i ymuno â Chynllun Pensiwn EBC.
**Lleoliad:** Lleolir y swydd hon yn ardal Rhosllannerchrugog ac yn gweithio o gartref.

Mae'r swydd hon yn amodol ar ddatgeliad DBS manwl a dau eirda boddhaol.

Mae Gofyniad Galwedigaethol Cristnogol a Chymraeg yn berthnasol i'r swydd hon.

Am ragor o wybodaeth, ac am ffurflen gais, cysylltwch â:

e-bost – Shanta.Rupalia@ebcpcw.cymru

ffôn – 07787 522904 / 02920 627465

**Dyddiad Cau: 21 Ebrill 2023 am 4yp.**

# Dyma gyfarfod hyfryd iawn

## *Llawenydd anhraethadwy*

**Emyn 776 'A fynno ddewrder gwir'**

**Darllen – Salm 16**

**Gweddi**

Arglwydd Dduw, ein lloches, ein hetifeddiaeth, ein mwyniant bythol, tarddle pob gobaith a rhoddwr 'digonedd o lawenydd', addolwn di. Addolwn di am dy Fab Iesu Grist, yr un teyrngar, na chafodd Sheol na Phwll Distryw afael arno. Ynot ti, Arglwydd Iesu, y canfyddwn lwybr bywyd. Tyrd atom drachefn, drwy dy Ysbryd Glân fel y cawn ddarganfod o'r newydd lawenydd yn ein calonnau, gorfoledd yn ein hysbryd, nerth i fyw er dy fwyn ym mhob her a wynebwn drwy gydol ein hoes. Arglwydd, cyflawna ynom y wyrth o ffydd fywiol ynot ti.

**Gwahoddiad**

O hyn i'r Pentecost bydd ein myfyrdodau'n seiliedig ar ddarlleniadau o Lythyr Cyntaf Pedr (darlleniadau ydynt a awgrymir gan y Llithiadur). Byddem ar ein hennill o ddarllen y Llythyr yn ei gyfanrwydd er mwyn i ni fedru deall o fewn eu cyd-destun yr adrannau unigol y byddwn yn rhoi sylw neilltuol iddynt.

**Darlleniad 1 Pedr 1:1–9 Llawenydd anhraethadwy**

**Emyn 764 'Ni allodd angau du'**

**Cyflwyniad**

O edrych ar fap o enwau'r ardaloedd y cyfeiriodd Pedr ei lythyr atynt gwelwn mai cyfeirio at gynulleidfaoedd ifanc oedd wedi eu plannu yn y wlad a fyddai'n dod i'w hadnabod fel 'Twrci' a wna.

**Chwithdod neu synhwyrol?**

A ninnau'n byw mewn trefn wleidyddol ryddfrydol a democrataidd (lle ceir rhyw fesur ymddangosiadol o ryddid i fynegi barn), gall pwyslais Pedr ar 'ymostwng' (1 Pedr 2:13, 18; 3:1) ein taro'n chwithig.

Cyn neidio i wfftio'i neges, dylem ymdrechu i geisio darllen ei lythyr o fewn ei gyd-destun hanesyddol a gwleidyddol.

Dychmygwch am foment fyw mewn gwlad unbenaethol, ormesol, sy'n ystyried bod pob gwyro oddi wrth y grefydd sefydliadol, neu bob gwrthgiliad oddi wrth werthoedd cymdeithasol yr Ymerodraeth, fel bygythiad i'w ofni. Yn awr, rydym yn medru dechrau deall amgylchiadau bywyd bob dydd i'r Cristnogion cynharaf. (Meddyliwch am y gost o fod yn Gristion heddiw mewn gwledydd fel China, Iran neu Ogledd Corea, er enghraifft?) Pan ychwanegwn at hynny'r erledigaethau mileinig a mympwyol a wynebodd yr Eglwys Fore, ynghyd â diffyg 'hawliau dynol' sylfaenol i unigolion i ymarfer eu ffydd, dechreuwn amgyffred yr heriau a wynebai Gristnogion oedd yn credu bod yna Arglwydd amgen i'r Ymerawdwr yn Rhufain. Deallwn pam yr oedd Pedr ar yr un llaw am annog yr eglwysi i ddatblygu'r ddawn o egluro'r gobaith oedd ynddynt i'r rhai a geisiai eglurhad ganddynt, ond ar y llaw arall i fod yn ofalus rhag cynnig unrhyw achos i swyddogion yr Ymerodraeth eu herlid heb reswm! Wedi'r cyfan, yr oeddynt eisoes yn wynebu erledigaeth ac 'yn profi blinder dros dro dan amrywiol brofedigaethau'. Roedd tân eu puro eisoes wedi ei gynnau.

Er mwyn eu hannog i fyw yn deilwng o'u proffes ac yn llawn gobaith, anoga Pedr hwy i gofio o'r newydd y breintiau oedd yn perthyn iddynt. Er bod y 'tân' oedd yn eu profi yn boenus o real, roedd cynnwys eu ffydd a'u profiad ohoni yn fwy gwerthfawr, yn fwy rhyfeddol hyd yn oed 'na'r aur sy'n darfod'.

Ym mha gyflwr bynnag yr ydym fel unigolion neu fel eglwysi yn canfod ein hunain ynddynt y dwthwn hwn, mae angen i bob un ohonom gael ein hatgoffa o ryfeddod gwaith gras a'i effeithiau arnom.

**Gwaith bywiol**

Roedd Pedr am i'r cynulleidfaoedd sylweddoli nad clwb, cymdeithas neu sefydliad tebyg i bob sefydliad, clwb neu gymdeithas arall yn y byd yw'r Eglwys. Pobl ydym sydd wedi dod i ffydd fyw yn Iesu Grist, a'n bod drwy daenelliad ei waed a thrwy waith yr Ysbryd Glân ynom wedi ein neilltuo ganddo, er ei fwyn! Pobl ydym lle mae realiti'r ffydd a blannwyd ynom yn guddiedig i'r byd o'n hamgylch. Disgwyl yr ydym, yn amser yr Arglwydd, i'r 'iachawdwriaeth sydd yn barod i'w datguddio yn yr amser diwethaf' gael ei hamlygu.

**Gobaith bywiol**

Sail pob gobaith am iachawdwriaeth unigol yw atgyfodiad 'Iesu Grist oddi wrth y meirw'. Nid gan angau y mae'r bygythiad cyntaf na'r gair olaf. Perthyn y gorffennol, y presennol a'r dyfodol i'r Arglwydd Iesu Grist!

Ni chyflawnir pob un o'n gobeithion arwynebol. Mewn drych, trwy ddameg, y deallwn unrhyw beth am waith gras ynom! Er hynny, y mae realiti bywiol y gobaith a blannwyd ynom yn fwy rhyfeddol, yn filwaith fwy gogoneddus am ei fod wedi ei seilio ar weithgarwch Duw drwy atgyfodiad Iesu Grist.

**Cynnwys gobaith**

Daeth had bywiol Duw i'n bywhau o'r newydd (Ioan 3:3,5). Ni choleddir gennym y gred, hyd yn oed am amrantiad, fod unrhyw haeddiant neu hawl i'w ymyrraeth, yn ein bywydau. 'Mawr drugaredd' Duw yn unig yw sail ei fywyd ynom.

Darparwyd etifeddiaeth drwy 'daenelliad gwaed' marwolaeth Iesu Grist drosom. Ni all unrhyw lys dynol wyrdroi amodau'r 'ewyllys'. Ni all lladron ei reibio, ac ni all amser chwaith ei lygru. Mae'n etifeddiaeth sydd â blas a rhin y 'nefoedd' yn perthyn iddi.

**Effaith gobaith**

Un o'r pethau tlysaf am weld pobl yn dod i ffydd yn yr Arglwydd Iesu am y tro cyntaf yw sylwi ar y 'Bendigedig fyddo Duw a thad ein Harglwydd Iesu Grist' sy'n eu meddiannu. Ni all anghredinwyr ddeall y mynegiant hwn o brofiad y Cristion.

Mud yw'r mawl lle bydd anghrediniaeth yn llywodraethu.

Ond y gwir yw hyn. Ni all y galon grediniol beidio â chanu pan ddeallwn fod gallu Duw, gwarchodaeth Duw ac etifeddiaeth Duw o'n plaid, hyd yn oed yng nghanol y profiadau tanllyd a ddaw i'n rhan. A phan ddeallwn fod yr etifeddiaeth ar gadw, yn aros i'w meddiannu'n llawn yn Iesu Grist, ni allwn beidio â mynegi 'llawenydd anhraethadwy a gogoneddus' y gras a feddiannodd ein calon.

Yr hyn a ryfedda ein calonnau, ie, a ryfedda bob un a brofodd ras, yw hyn. Trwy ras Duw yn unig y daw'r bywyd, y gobaith, y cyflawniad a'r etifeddiaeth. Mae'r cyfan oll o ras ac yn gwbl anhaeddiannol gennym.

**Gweddi**

Arglwydd, diolchwn i ti nad yw ein gobaith yn seiliedig ar ddim a wnaed neu a wneir gennym. Nid yw'n dibynnu ar ddim a gyflawnwyd neu a gyflawnir gennym. Diolchwn i ti mai dy ras a ddarparodd obaith, mai gras a'n gwahoddodd i rannu, i brofi ac i ymostwng i obaith anorchfygol, drwy atgyfodiad Iesu Grist oddi wrth y meirw. Rhyddha ynom don o ryfeddod a chrea ynom gynulleidfaoedd sy'n cael eu nodweddu gan lawenydd anhraethadwy a gogoneddus.

**Emyn 'Myfi yw'r atgyfodiad mawr'**

*RWJ*

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
watcyn@cennad.cymru | huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru